PROFFIL YR ESGOBAETH

Yr Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu

O Dad, rydym ni'n dangos ger dy fron ein teulu
yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
ac rydym yn agor ein calonnau a'n meddyliau i'r Ysbryd:
Bendithia ni, wrth i ni ymgasglu yn dy enw;
arweinia ni wrth i ni dyfu i debygrwydd dy Fab;
arwain ni drwy dy Ysbryd i fynd allan a gwneud disgyblion o eraill.
Dduw ein teithiau, bydd yn ffordd i ni, yn wirionedd a'n bywyd, ein dechreuad a'n diwedd.
Gweddïwn hyn trwy Iesu ein Harglwydd.

GWEDDI'R ESGOBAETH

Bydd esgob nesaf Abertawe ac Aberhonddu'n ymuno ag Esgobaeth o glerigion a phobl leyg a fydd yn gorfod wynebu llawer o heriau a chyfleoedd gyda'i gilydd yn y blynyddoedd i ddod. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y proffil hwn yn cyflwyno gwybodaeth sy'n dangos Esgobaeth 'eofn, dewr a realistig'. Rydyn ni'n Esgobaeth gyda gweledigaeth o 'gasglu, tyfu a mynd', sy'n dilyn Comisiwn Mawr Crist o fynd a gwneud disgyblion, ac rydyn ni'n hynod falch o'r weledigaeth honno.

Ond rydyn ni hefyd yn Esgobaeth a fydd yn wynebu nifer o heriau yn y dyfodol, a dydyn ni ddim yn gwrthod eu hwynebu. Wedi'u gwau i'r proffil hwn mae lleisiau'r rhai sy'n cymryd rhan ym mywyd a gwaith yr Esgobaeth ar hyn o bryd. Gofynnwyd i bob un rannu'r agweddau sy'n rhoi'r mwyaf o foddhad, a'r rhai mwyaf anodd, yn eu gwaith, ac i ystyried y nodweddion y bydd esgob newydd eu hangen i'w cefnogi nhw a'u maes llafur.

Bydd y Proffil hwn yn cychwyn gyda'r Esgobaeth yn ei chyd-destun ac yn trafod ei daearyddiaeth, ei hanes a'i hamodau economaidd a chymdeithasol y mae ei phobl yn eu rhannu. Yna, bydd yn symud ymlaen i nodi'r set bresennol o Amcanion Strategol yr Esgobaeth. Datblygwyd y rhain i ymateb i'r cyd-destun o ble mae'r Esgobaeth a hefyd fel ymateb parhaus i Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru 2012.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu trefniant yr Esgobaeth ar hyn o bryd a sut y mae'n cyflawni ei nodau strategol i gefnogi ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth. Os bydd hynny'n briodol, bydd pob adran yn amlinellu'r nodweddion allweddol y bydd Esgob newydd eu hangen, yn ôl y rhai sydd â rhan, er mwyn cefnogi'r gwaith hwn-nw. Daw'r rhan hwn o'r proffil i ben gydag amlinelliad o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Esgobaeth a'r esgob newydd. Yna, mae yna adran sy'n amlinellu cyfrifol-debau'r esgob newydd yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach a daw'r ddogfen i ben gyda Manyleb Person ar gyfer yr esgob newydd.

Mae prosiect arloesol a gynhaliwyd gyda phobl ifanc yr Esgobaeth o'r enw 'Ymgynghoriad Esgob Plant a Phobl Ifanc' wedi'i gynnwys fel atodiad i'r brif ddogfen.

Teulu gyda'i wreiddiau yng Nghrist, wedi ymrwymo i drawsnewid bywydau trwy: Ymgasglu fel pobl Dduw, Tyfu'n fwy fel Iesu, Troedio allan yn nerth yr Ysbryd.

GWELEDIGAETH YR ESGOBAETH

Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu

Ar adeg ei datgysylltu ym 1920, roedd pedair Esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, Bangor, Llanelwy, Tyddewi a Llandaf. Ym 1923, dair blynedd ar ôl ei datgysylltu, a'i dadwaddoli o ganlyniad, sefydlwyd dwy Esgobaeth newydd, Abertawe ac Aberhonddu a Mynwy. Ceisiwyd dilyn yr egwyddor y dylai Esgobaeth gynnwys cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig. O ganlyniad, mae Abertawe ac Aberhonddu'n cynnwys dwy archddiaconiaeth tra gwahanol, a hollol gyferbyniol, o weinidogaeth drefol a gwledig.

Mae'r Esgobaeth yn ymestyn o ganolbarth Cymru wledig yn sir Powys i arfordir y de. I'r gogledd, mae'n ffinio â siroedd Amwythig (y rhan dde-orllewinol) a Henffordd yn Lloegr. Yn ei phellafion yn y gogledd-orllewin, mae'n ffinio â bryniau godrau Pumlumon ac, i'r de-orllewin, y Mynyddoedd Duon. Hi yw'r unig Esgobaeth yng Nghymru sy'n ffinio â'r pum esgobaeth arall yn yr Eglwys yng Nghymru: Bangor a Llanelwy i'r gogledd, Tyddewi i'r gorllewin a Llandaf a Mynwy i'r de. Gwledig yn bennaf yw'r rhan ogleddol gydag amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth y prif ddiwydiannau traddodiadol. Mae'n cynnwys trefi marchnad Trefyclo, Llandrindod, Llanfair ym Muallt, y Gelli Gandryll ac Aberhonddu. O Aberhonddu mae'n rhedeg i'r de trwy Fannau Brycheiniog, i ardaloedd trefol, yn bennaf, Cwm Tawe ac yna i Ddinas Abertawe ac i Fro Gŵyr.

Dwy Archddiaconiaeth

Canolfan Archddiaconiaeth Aberhonddu yw tref farchnad a thref garsiwn hanesyddol Aberhonddu, sydd yng nghanol Powys. Cafodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei greu ym 1957. Mae'n cynnwys rhan ddeheuol Powys, y rhan fwyaf i'r de o Aberhonddu ei hunan. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys mynyddoedd a sgydau ac mae'n gynyddol boblogaidd gydag ymwelwyr. Poblogaeth denau sydd gan Archddiaconiaeth Aberhonddu er ei bod yn fwy o ran arwynebedd nac Archddiaconiaeth Bro Gŵyr. Mae ganddi rai trefi bychan: Trefyclo neu Drefyclawdd, Llandrindod, Llanfair ym Muallt, y Gelli Gandryll, Crug Hywel ac Aberhonddu ei hunan. Mae'r trefi hyn yn ganolfannau i bentrefi a ffermydd gwasgaredig.

Mae'r proffil oedran yn hŷn yng ngogledd yr Esgobaeth nac yng ngweddill Cymru gyda 32.4% o'r boblogaeth dros 60 oed (o gymharu â 22.2% yn genedlaethol). Y cyfartaledd oedran yw 46.1 mlynedd.

Mae Archddiaconiaeth Bro Gŵyr yn cynnwys Abertawe, ail ddinas Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth yr Esgobaeth yn byw, a chanolfan fusnes, cymdeithasol, economaidd a masnachol rhanbarth gorllewin Cymru. Mae 26.8% o boblogaeth Abertawe dro 60 oed a'r cyfartaledd oedran yw 42.8. Mae mwy o droseddu yn Abertawe nag yng ngweddill y wlad gyda'r rhan fwyaf o'r troseddau yn un ai'n ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau treisgar (65%). Mae llai o droseddu ym Mhowys nag yng ngweddill y wlad ac mae'r troseddau hyn hefyd

Gyferbyniol

yn bennaf yn rhai ymddygiad gwrth gymdeithasol neu rai treisgar (64.7%).

Dywedir bod rhannau o Abertawe'n dioddef o amddifadedd 'gyda gwreiddiau dwfn', hynny yw maen nhw wedi bod ymysg yr 50 o ardaloedd gyda'r amddifadedd mwyaf am y 15 mlynedd diwethaf. At ei gilydd, mae 49% o Abertawe ymysg y 50% o ardaloedd gyda'r amddifadedd mwyaf yn yr ardal. Does yr un rhan o Bowys wedi'i chynnwys ymysg y 10 ardal gyda'r mwyaf o amddifadedd a dim ond 20% o Bowys sydd ymysg y 50% gyda'r mwyaf o amddifadedd.

Gallai ymddangos fod yna raniad llwyr rhwng dwy ran yr Esgobaeth, gydag Abertawe gymaint yn fwy poblog a chyda llawer iawn mwy o'r hyn y gellir ei ystyried yn amddifadedd, a gogledd yr Esgobaeth yn ymddangos yn wledig, ffyniannus, iach a gyda gwasanaethau da. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion yn y rhannau gwledig yn dioddef amddifadedd cyfleoedd, megis diffyg gwasanaethau a swyddi da, trafferthion teithio, diffyg cludiant cyhoeddus a thlodi digidol – cysylltiad gwael â'r rhyngrwyd a diffyg signal ffôn symudol.

Ar wahân i'n strwythurau esgobaethol ein hunain, twristiaeth a gweithgareddau'r awyr agored, ychydig o gysylltiadau naturiol sydd rhwng Abertawe ac Aberhonddu. Gwnaed ymdrechion mawr dros y blynyddoedd i gael yr Esgobaeth i weithio fel uned sengl. Mae'r Esgobaeth yn cyfuno'r ddwy archddiaconiaeth ar ddau ben y continwwm trefol – gwledig mewn ffordd sy'n sicrhau fod gweinidogaeth ddwys, cefn gwald a threfol, yn cyfoethogi ei gilydd.

Mae Eglwys Gadeiriol Aberhonddu wedi'i chysegru i Sant Ioan yr Efengylydd ac yn cael ei ddisgrifio gan Richard Haslam yn Pevsner Architectural Guide for Powys fel 'yn ddiamau, yr Eglwys fwyaf ysblennydd ac urddasol yn y Canolbarth'. Yn Briordy Benedictaidd ac Eglwys y Plwyf yn wreiddiol, daeth yn Eglwys Gadeiriol pan gafodd newydd Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu ei chreu ym 1923. O'r herwydd, dyma sedd Esgob Abertawe ac Aberhonddu ac hi yw canolbwynt undod yr Esgobaeth, yn cyhoeddi cariad Duw sy'n ymddangos ym mherson Iesu Grist.

Strategaeth Bresennol yr Esgobaeth

Heriodd Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru yn 2012, yr Eglwys yng Nghymru i gynnal gwerthusiad trwyadl o'i bywyd a'i gwaith. Wrth ymateb i'r heriau, yn y cyd-destun sydd wedi'i osod a'r adolygiad parhaol o waith taleithiol , mae Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu wedi paratoi strategaeth ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth. Mae'n seiliedig ar weledigaeth o deulu wedi'i wreiddio yng Nghrist, wedi ymrwymo i drawsnewid bywydau wrth ymgasglu fel pobl Duw, yn tyfu'n fwy fel Iesu ac yn mynd allan yn nerth yr Ysbryd i wneud disgyblion o eraill. Mae'r nodau strategol hyn yn sail i fywyd a gwaith presennol yr Esgobaeth.

NOD STRATEGOL 1

Bydd gan yr Esgobaeth Ardaloedd Gweinidogaeth bywiog ar gyfer cenhadu yng nghanol ein cymunedau.
Dywedodd Iesu wrthynt, "Dewch ar fy ôl i". A gadawsant eu rhwydau ar unwaith a'i ganlyn ef. (Marc 1:17- 18)

NOD STRATEGOL 2

Bydd yr Esgobaeth yn cael ei strwythuro a'i llywodraethu ar gyfer cenhadu.
Meddai Iesu, "Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân" (Mathew 28: 19)

NOD STRATEGOL 3

Bydd yr Esgobaeth yn paratoi rhaglenni dysgu a disgyblaeth i ddarparu'i chenhadaeth.
Yr oedd yn dysgu yn eu synagogau ac yn cael clod gan bawb (Luc 4: 15)

NOD STRATEGOL 4

Bydd yr Esgobaeth yn ceisio adeiladau Teyrnas Duw yn y bywyd cymunedol a chyhoeddus.
Gofynnodd Iesu iddo, "Prun o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno". Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd." (Luc 10. 36-37).

NOD STRATEGOL 5

Bydd cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth yn gynaliadwy a gydag adnoddau ar eu cyfer.
Meddai Iesu, "Oherwydd os bydd un ohonoch yn dymuno adeiladu tŵr, oni fydd yn gyntaf yn eistedd i lawr i gyfrif y gost, er mwyn gweld a oes ganddo ddigon i gwblhau'r gwaith?" (Luc 14:28)

Strwythur a Llywodraethiant yr Esgobaeth

STAFF YR ESGOB

Mae Staff yr Esgob yn arwain gweledigaeth, gweinidogaeth a chenhadaeth yr Esgobaeth. Maen nhw'n darparu gofal bugeiliol ar gyfer offeiriadon, diaconiaid a gweinidogion arweiniol lleyg ar draws yr Esgobaeth. Ar hyn o bryd mae'r staff yn cynnwys dau Archddiacon, Bro Gŵyr ac Aberhonddu, y Deon, Ysgrifennydd yr Esgobaeth a Chofrestrydd yr Esgobaeth. Maen nhw'n cyfarfod ar y cyd bob pythefnos ac yn cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion allweddol sy'n dal portffolios penodol, gan gynnwys: Swyddogion Gweinidogaeth; Swyddog Datblygu Ardaloedd Gweinidogaeth; Deoniaid Ardal; Arweinwyr Ardal Weinidogaeth a Chadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

BWRDD CYLLID YR ESGOBAETH

Mae dwy ran i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Y rhan gyntaf yw'r Bwrdd Llawn, gyda'i aelodau sy'n gynrychiolwyr etholedig o'r pedair deoniaeth. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am dderbyn ac am awdurdodi'r gyllideb a'r adroddiad blynyddol ariannol. Yr ail ran yw'r Pwyllgor Gwaith, sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol weithredol yr Esgobaeth. Ei Gylch Gorchwyl yw argymell cyllidebau, darogan ac adolygu'r cyfrifon rheoli a'r risgiau ariannol. Ar hyn o bryd mae gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth bedwar is-bwyllgor gyda Chylch Gorchwyl. Y pedwar yw'r Bwrdd Rheithordai; Pwyllgor Ariannu; Pwyllgor Buddsoddi a'r Gweithgor Rhannu Gweinidogaeth, sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

Y PWYLLGOR SEFYDLOG

Y Pwyllgor Sefydlog sy'n gyfrifol am Gynhadledd yr Esgobaeth. Y Gynhadledd sy'n ethol aelodau o'r Deoniaethau. Ar hyn o bryd mae'n cadarnhau penodiadau staff yr Esgob ac ail drefnu bugeiliol. Efallai bydd yr Esgob newydd eisiau galluogi'r Pwyllgor Sefydlog i ddatblygu'i rôl ymhellach wrth fonitro ac adolygu nodau strategol yr Esgobaeth ac wrth werthuso sut mae'r Esgobaeth yn gwireddu gweledigaeth yr Esgobaeth.

STAFF YR ESGOBAETH

Gwaith penodol tîm gweinyddol yr Esgobaeth yw cefnogi gweinidogaeth a chenhadaeth yr Esgobaeth. Yn gweithio o Ganolfan yr Esgobaeth yn Aberhonddu, mae wedi'i ymrwymo i wasanaethau'r Ardaloedd Gweinidogaeth, y plwyfi, Swyddogion yr Esgob a'r sector gweinidogaeth a amlinellir yn y proffil hwn. Ar hyn o bryd mae yna swyddfa hefyd yng Nghanolfan Eastmoor, Abertawe gyda staff yn gweithio o gartref. Hefyd, mae yna 13 o staff llawn amser sy'n cefnogi gweinidogaeth yr Esgobaeth drwy stiwardio a rheoli agweddau ariannol gweinyddol a gweithredol yr Esgobaeth. Mae'r staff yn atebol i, ac yn cael eu rheoli gan, Ysgrifennydd yr Esgobaeth sy'n

2 ARCHDEACONRIES
4 DEANERIES
20 MINISTRY AREAS
65 BENEFICES / PARISHES



50 STIPENDIARY
21 NSM

278 LAY ASSISTANTS
26 READERS

4,032 EASTER COMMUNICANTS

3,238 AVERAGE ATTENDANCE NON-TRADITIONAL ACTS OF WORSHIP

2,739 AVERAGE SUNDAY ATTENDANCE
14% UNDER 18 YEARS

258 BAPTISMS
92% UNDER 11 YEARS

14 CHURCH SCHOOLS
8 VC PRIMARY
6 VA PRIMARY

PARISH EXPENDITURE £3,600,000

PARISH SHARE £2,596,668

COLLECTION RATE: 92.2%

PARISH RESERVES £6,500,000

UNRESTRICTED: 62%

* 2019 figures

adrodd i Staff yr Esgob ac i'r cyrff statudol a amlinellir uchod. Yn ystod y pandemig, cafodd staff yr Esgobaeth adnoddau i weithio gartref yn eithaf hawdd. Wrth i'r cyfyngiadau godi, mae Ysgrifennydd yr Esgobaeth yn rhagweld y bydd yna agwedd hyblyg at weithio gartref ac yn y swyddfa.

EIDDO PERSONDAI

Ar hyn o bryd, mae'r Esgobaeth yn geidwad i tua 49 o eiddo neu barseli o dir sydd wedi'u breinio mewn plwyfi. Mae'r Ymddiriedolaeth Addysg yn rhoi adnoddau i 14 o ysgolion ac yn cynnal un ysgol sydd wedi cau. Mae Cymdeithas Dai'r Esgobaeth yn gyfrifol am ddau eiddo. Efallai y bydd gofyn i'r Esgob newydd ystyried cyfeiriad strategol eiddo'r Esgobaeth yn y dyfodol, a sut y gellid ail ffurfio staff persondai, sy'n hynod brin o adnoddau ar hyn o bryd, i ddod yn addas at eu diben.

SWYDDOGION YR ESGOB

Mae yna 30 o Swyddogion yr Esgob llawn amser ar hyn o bryd yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau cenhadol. Mae hynny'n cynnwys Swyddogion yn gweithio gyda bywyd gwledig, pobl hŷn, plant, pobl ifanc a theuluoedd, dialog rhyng-ffydd, iachau a gwaredigaeth. Mae llawer o'r rhain yn glerigion sy'n derbyn cyflog ac sydd â chyfrifoldebau trwm eraill. Ar hyn o bryd, mae'r swyddogion yn cyfarfod o dro i dro gyda Staff yr Esgob i adrodd yn ôl ar eu gwaith. Hoffai'r Esgobaeth ddatblygu'r adrodd yn ôl i gynnwys sut mae'u gweinidogaeth yn berthnasol i weledigaeth a strategaeth yr Esgobaeth.

CYSYLLTIADAU

Ysgrifennodd yr Esgob yn rheolaidd i'w offeiriadon yn yr Ad Clerum. Efallai bod angen i'r Esgob newydd ystyried sut y gellir gwella ar hyn. Ar hyn o bryd, mae Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Datblygu Cymunedol yr Esgobaeth yn cynhyrchu e-bwletin wythnosol a chylchgrawn pob chwarter, yn anelu at rannu gwybodaeth, mentrau a hanesion am genhadaeth y mae lawer â rhan ynddynt ledled yr Esgobaeth. Y diben yw rannu hanes Newyddion Da, i annog ac i adeiladu Corff Crist. Efallai bydd gofyn i'r Esgobaeth, o dan arweinyddiaeth yr Esgob newydd, ystyried sefydlu Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata clir am y pum mlynedd nesaf.

Y GYMRAEG

Mae Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu'n Eglwys ddwyieithog ble mae'r Gymraeg a Saesneg gyda statws cyfartal. Saesneg yw iaith bennaf rhai eglwysi, gan adlewyrchu ymarfer eu cymuned leol, mae eraill yn Eglwysi Cymraeg yn bennaf sy'n eu galluogi i gyfoethogi eu haddoli yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl yr arfer lleol. Bydd yr Esgob nesaf wedi'i ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr Esgobaeth, yn defnyddio adnoddau i sicrhau fod cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn ddwyieithog. Os na fydd yr esgob newydd yn siarad Cymraeg, bydd ef / hi'n cael ei g/chroesawu, annog a chael adnoddau i ddysgu'r iaith.

Cyllid yr Esgobaeth

Fel mewn llawer o rannau o'r Eglwys yng Nghymru, mae'r Esgobaeth yn wynebu heriau ariannol sydd wedi eu gwaethygu gan y pandemig COVID. Fodd bynnag, mae'r esgobaeth yn cael ei gwasanaethu gan grŵp o Drysoryddion ymroddgar ledled yr Esgobaeth, grŵp o Ymddiriedolwyr ar Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth (rhai gyda gwybodaeth ariannol drylwyr ar y lefel genedlaethol uchaf) a chan staff ardderchog sy'n rheoli cyllid yr esgobaeth. Mae'r heriau, fodd bynnag, yn dal yn real.

Prif gostau'r Esgobaeth yw ei chlerigion a'i staff esgobaethol. Dylid felly, sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n effeithiol. Mae'n bwysig hefyd annog ac ysbrydoli'r clerigion a'r lleygwyr i ymarfer stiwardiaeth dda o asedau'r Esgobaeth, ysgafnhau beichiau a rhyddhau egni ar gyfer tyfu gweinidogaeth gynaliadwy.

Mae gan yr Esgobaeth fwy o adeiladau nag y mae ei angen. Mae llawer yn eglwysi hanesyddol rhestredig. Maen nhw'n dyst i draddodiadau a ffydd y gorffennol ac yn cael eu dal yn annwyl iawn gan y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Corff y Cynrychiolwyr yw eu perchennog, nid yr Esgobaeth, ond maen nhw'n gostau ariannol anuniongyrchol mawr i ni. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo'n wag, heblaw am awr neu ddwy yr wythnos, ac ar gyfer ond llond llaw o addolwyr. Mae eu cynnal yn costio egni ac arian ac mae llawer o gynulleidfaoedd yn cael trafferth i dalu eu Cyfran Gweinidogaeth, hyd yn oed cyn y cyfnod clo. Mae angen gwerthusiadau gonest, dirniadaeth weddigar a gweithredu'n bendant i ymdrin â'r materion hyn er mwyn cryfhau'r Eglwys ar gyfer y dyfodol.

Mae costau gweinidogaethol yn cael eu hariannu'n bennaf trwy'r Gyfran Gweinidogaeth gyda'r gyllideb yn anelu at gadw pen uwchben y dŵr. Mae'r frwydr i dalu'r Gyfran wedi'i dwysau gan y pandemig. Oherwydd COVID, mae eglwysi wedi cau dros dro (rhai, efallai, am byth) ac nid oes cymaint o bobl yn y cynulleidfaoedd ag o'r blaen. Mae incwm o'r Gyfran Gweinidogaeth felly'n sylweddol llai nag a gyllidebwyd ar ei gyfer, er mae'r cymorth hael i'r Esgobaethau gan Gorff y Cynrychiolwyr wedi cuddio hyn. Yn dibynnu ar y rhagolygon economaidd ôl-COVID y wlad, efallai y bydd ein portffolio buddsoddi (tua £5.5 miliwn) yn rhoi, neu na fydd yn rhoi, rhywfaint o sicrwydd.

Does gan gadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ddim amheuaeth y gallai'r heriau ariannol ysgogi newidiadau strwythurol radical yn yr Esgobaeth. Fodd bynnag, yn hytrach na rheoli dirywiad, gallai newid o'r fath arwain at gyfleoedd newydd i dyfu a datblygu. Gall gwerthuso ac ail strwythuro, ar y cyd ag ymrwymiad yr Esgobaeth i gefnogi a rhoi adnoddau ar gyfer strategaethau newydd i genhadu ac efengylu, i ysgogi twf ac i nerthu mynegiant newydd o Eglwys. Ond, bydd rhai newidiadau, yn anorfod, yn boenus ac yn anodd, gan arwain at wrthdaro a fydd angen arweinyddiaeth rheoli bugeiliol, a chadarn. Rhaid i'r Esgob newydd alluogi, annog a bod yn arweinydd ysbrydoledig o'r prosesau o newid ariannol.

SWANSEA & BRECON DIOCESAN FINANCES 2019

TOTAL INCOME £3,809,731

TOTAL EXPENDITURE £4,329,182

GAINS / (LOSSES) ON INVESTMENTS £492,164

NET MOVEMENTS IN FUNDS (£27,287)

MISSION & MINISTRY



OTHER COSTS



SWANSEA & BRECON DIOCESAN FINANCES 2020

TOTAL INCOME £3,769,597

TOTAL EXPENDITURE £3,654,945

GAINS / (LOSSES) ON INVESTMENTS (£40,132)

NET MOVEMENTS IN FUNDS £74,520

MISSION & MINISTRY



OTHER COSTS



*REDUCED ACTIVITY LEVELS DUE TO COVID-19

SWANSEA & BRECON DIOCESAN FINANCES 2021 FORECAST

TOTAL INCOME £3,729,068

TOTAL EXPENDITURE £4,208,677

NET MOVEMENTS IN FUNDS (£479,609)

MISSION & MINISTRY



OTHER COSTS





Cenhadaeth yr Esgobaeth
Ardaloedd Gweinidogaeth

Mae nod strategol cyntaf yr Esgobaeth yn datgan, 'Bydd gan yr Esgobaeth Ardaloedd Gweinidogaeth bywiog ar gyfer cenhadu wrth galon ein cymunedau".

Heriodd Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru 2012 y rhanbarth i ganfod ffyrdd newydd o drefnu a chael adnoddau ar gyfer ei bywyd a'i gwaith i gefnogi ac yn ymestyn allan ei chenhadaeth yn well at bobl Cymru. Heriodd y rhanbarth i gofleidio ffordd mwy cydweithredol o fod yn Eglwys a fyddai'n cefnogi ac yn annog gweledigaeth newydd o fywyd y plwyfi. Yr allwedd i hyn oedd ymrwymiad y rhanbarth i ddatblygu Ardaloedd Gweinidogaeth. Wrth galon hyn oedd gweledigaeth y byddai ail ffurfio bywyd plwyfi i fod yn Ardaloedd Gweinidogaeth yn annog pawb o bobl Dduw i ddod at ei gilydd mewn gweinidogaeth a rhyddhau adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn cenhadaeth.

Mae datblygiad Ardaloedd Gweinidogaeth wedi symud ymlaen mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol gyflymdra drwy'r rhanbarth ers hynny. Mae Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu wedi arddel dull 'o'r gwaelod i fyny' yn hytrach nag 'o'r top i lawr' wrth ddatblygu Ardaloedd Gweinidogaeth. Felly, mae wedi annog Ardaloedd Gweinidogaeth i fabwysiadu trefniadau sy'n cael eu hystyried yn briodol i'r cyd-destun lleol yn hytrach na datblygu a gorfodi model sengl, esgobaethol.

Roedd y rhai oedd â rhan mewn datblygu Ardaloedd Gweinidogaeth yn yr Esgobaeth yn cydnabod, er eu bod yn dechrau ffynnu mewn rhai mannau yn yr Esgobaeth, mai araf, at ei gilydd, y bu'r cynnydd. Er bod yna gydnabyddiaeth gynyddol nad yw'r status quo bellach yn ddewis gwirioneddol, ac y bydd yn rhaid i'r Eglwys fynegi ei chenhadaeth mewn gwahanol ffyrdd yn y dyfodol, nid yw Ardaloedd Gweinidogaeth, at ei gilydd, wedi cael croeso a bod Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth yn dal i wynebu cyndynrwydd i newid.

Mae yna deimlad yn yr Esgobaeth nad yw'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer Ardaloedd Gweinidogaeth oedd yn Adolygiad Eglwys yng Nghymru wedi cael ei gwireddu'n llawn hyd yma. Erbyn hyn, mae yna angen a chyfle i adolygu cynnydd ac i fywiocau'r weledigaeth. Mae staff tîm yr Esgob a'r Pwyllgor Sefydlog o'r farn, erbyn hyn, y dylid ystyried a gweithredu trefniant craidd y gellid ei addasu sy'n annog cenhadaeth (yn fwy o fwydlen gydag ychydig o ddewisiadau na glasbrint).

Yr her i'r esgob newydd ac i'r uwch staff fydd adolygu a bywiocau'r weledigaeth o Eglwys sy'n sail i ddatblygu Ardaloedd Gweinidogaeth ac i gymryd, a helpu i weithredu, y penderfyniadau strategol a fydd eu hangen i ddatblygu Ardaloedd Gweinidogaeth fel offer ar gyfer cenhadu yn y dyfodol, tra, yr un pryd, yn rhoi caniatâd i glerigion gofleidio arbrofi, creadigedd ac arloesedd.

Ar hyn o bryd, mae yna 20 ardal weinidogaeth. Yn 2017, comisiynodd yr Esgobaeth un ardal weinidogaeth a sefydlodd 15 arall, gan adael pedair yn dal heb eu sefydlu.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Ffydd a Theuluoedd

Mae pedwaredd nod strategol yr esgobaeth yn datgan, 'Bydd yr Esgobaeth yn ceisio adeiladau Teyrnas Dduw mewn bywyd cymunedol a chyhoeddus.

Yn 2001, gadawodd Cymdeithas y Plant Gymru, gan adael prosiectau led led y wlad oedd yn cynnig eiriolaeth, cefnogaeth i deuluoedd a gwaith gwrth dlodi, heb arian. Cafodd Swyddog Cyfrifoldeb Cymdeithasol yr Esgobaeth ar y pryd gyllideb o £2,000 i ganfod faint o'r gwaith hwn ellid ei achub a'i barhau. Newidiodd y Bwrdd Dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol ei enw i Ffydd mewn Teuluoedd ac mae wedi dod yn rhan hynod arwyddocaol o genhadaeth yr Esgobaeth, gan weithio gyda'r egwyddor o ddiwinyddiaeth y deyrnas.

Eleni, dathlodd Ffydd mewn Teuluoedd ei ben-blwydd yn 21 oed. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi gweithio i ddarparu canolfannau a gwasanaeth i deuluoedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn yr Esgobaeth. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu gan Staff Craidd o dri, mae yna sawl canolfan i'r gwaith yn Abertawe ac un yn Aberhonddu. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- **Grwpiau Rhiant a Phlant bach**
- **Clybiau ôl Ysgol**
- **Cynlluniau Chwarae**
- **Clybiau Brecwast**
- **Cyrsiau i Oedolion**
- **'Cynllun Ysbrydoli'r Dyfodol' sy'n anelu at wella cyfle merched o gael gwaith cyflog**
- **Prosiect 'Dyfodol Disgleiriach' sy'n cyflogi tri gweithir cysylltu sy'n rhoi cefnogaeth ddwys a gweithgareddau i blant a'u rhieni / gofalwyr.**

Ers i'r pandemig ddechrau, mae'r timau a'r gwirfoddolwyr yn Ffydd mewn Teuluoedd wedi ymestyn allan i'n cymunedau mewn llawer o wahanol ffyrdd creadigol:

- **Cefnogi teuluoedd mewn argyfwng**
- **Parseli bwyd i'r rhai oedd yn wynebu tlodi bwyd neu a oedd yn ynysig**
- **Galwadau ffôn i gefnogi llesiant**
- **Danfon teganau, pecynnau gweithgaredd, iPads neu offer arall i bontio'r gagendor digidol**
- **Gweithgareddau ar lein i annog dysgu**
- **Storïau ar lein i gynnal perthynasau**
- **Sesiynau coginio ar lein i annog byw'n iach.**

Heblaw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan a chyda 'Ffydd a Theuluoedd', mae sawl eglwys yn yr Esgobaeth yn cymryd rhan mewn prosiectau i gefnogi eu cymunedau trwy gymryd rhan mewn banciau bwyd, clybiau cinio, hanfodion babanod, clybiau brecwast / cinio, llochesi nos a gweinidogion y stryd.

Mae'r rhai sy'n gweithio yn y meysydd hyn eisiau esgob a fydd yn gwirioneddol werthfawrogi ac yn cefnogi gwaith yr Eglwys mewn cymdeithas ac sy'n annog arbrofi ac arloesedd.

Gwirfoddolwyr yn Eglwys y Santes Fair yng nghanol Abertawe yn y brecinio wythnosol i bobl ddigartref yn y ddinas. Mae'r Santes Fair, ynghyd â Matt's Cafe a Zac's Place, wedi darparu gwasanaeth tecawê yng nghanol y ddinas yn ystod y pandemig Covid-19

Efengylu ac Ymestyn Allan

Mae ail nod strategol yr Esgobaeth yn datgan, 'Bydd yr Esgobaeth â strwythur ac yn cael ei llywodraethu ar gyfer cenhadu'.

Mae'r Esgobaeth yn cyflogi Swyddog yr Esgob ar gyfer Efengylu ac Ymestyn Allan, Mandy Bayton, sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar baratoi cais yr Esgobaeth i'r Gronfa Efengylu Daleithiol i ariannu prosiect efengylu newydd o'r enw Catalyst. Mae ei swydd hefyd yn golygu gweithio gydag Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth, cleirgion a phobl leyg i'w helpu i drafod gwahanol ffyrdd, ar lein ac wyneb yn wyneb, o ymestyn allan at eu cymunedau, yn lleol a thu hwnt. Mae'n cael ei chalonogi wrth ganfod fod llawer o'r clerigion a phobl leyg yn frwdfrydig dros efengylu, yn fodlon ystyried cysyniadau newydd ac ag ymrwymiad i weld yr Eglwys yn tyfu.

Ar hyn o bryd, mae'n trefnu Sioe Ffordd yr Esgobaeth o'r enw 'The Catalyst Conversation' ac yn ei chyflwyno i'r Esgobaeth drwy ddigwyddiadau Zoom.

Mae'n gobeithio y bydd Catalyst yn adnodd gwerthfawr a thrawsnewidiol ar gyfer yr Esgobaeth yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar genhadu ac efengylu ac yn rhoi lle i drafod sut allai hynny edrych mewn cyd-destunau gwahanol, gan annog trafodaeth o gwmpas y syniad ein bod ni gyd yn rhan o gynllun cenhadu Duw.

Mae Mandy'n credu mai un o gryfderau'r Esgobaeth yw fod llawer o'r eglwysi'n cysylltu'n effeithiol iawn yn gymdeithasol.

Felly, mae llawer o'r eglwysi yn yr Esgobaeth yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'w cymunedau. Mae eglwysi hefyd wedi addasu at fyw gyda Covid-19 ac wedi cofleidio ffyrdd newydd o gysylltu ac ymgasglu, gan aros yn gadarn ac yn ofalgar gydol y pandemig. Mae hynny wedi bod yn gysur enfawr i lawer.

Mae'r Esgobaeth, fodd bynnag, yn wynebu heriau. Mae demograffeg yr Eglwys yn hen yn bennaf ac mae yna wrthwynebiad i newid.

Mae yna ddiffyg hyder mewn cyfathrebu'r ffydd ac mae pobl angen help i adennill yr hyder i dyfu yn eu ffydd a'u disgyblaeth. Mae yna dystiolaeth o dwf ond mae llawer o waith i'w wneud i feithrin a chefnogi hynny.

Mae gofyn i esgob newydd fod â'r gallu i ysbrydoli newid, i annog, cefnogi, arloesi ac adeiladau disgyblion Corff Crist.

Addysg ac Ysgolion Eglwysig

Mae trydydd nod strategaeth yr Esgobaeth yn datgan, 'Bydd yr Esgobaeth yn darparu rhaglenni dysgu a meithrin disgyblion i ddarparu'i chenhadaeth'.

Mae addysg wrth galon cenhadaeth ac ymestyn allan yn yr Esgobaeth, gyda 14 o ysgolion esgobaethol. Mae mwy o blant yn ysgolion eglwysig yn yr Esgobaeth gyda llawer o rieni'n dewis anfon eu plant i'n hysgolion. Mae ymgynghori ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer dod ag un ysgol gynradd fach ac un ysgol uwchradd yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn yr Esgobaeth.

Ysgolion eglwysig yw calon eu cymunedau, gan chwarae rôl ganolog ym mywyd y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn ffynnu gyda'i gilydd i gyflawni mwy nag y gallwn ei ddychmygu. Mae ein diwylliant yn un o uchelgais fawr wedi'i gwreiddio yn ein gwerthoedd Cristnogol ac sy'n cael ei ddangos ym mywyd a dysgeidiaeth Iesu Grist, gyda'r holl ysgolion yn dangos hynny trwy arweiniad a rheolaeth ragorol, gyda hanes amlwg o berfformiad o safonau uchel, yn lleoedd o uchelgais, cyflawniad a gobaith.

Mae llesiant yn ganolog i lwyddiant yr ysgolion, wedi'i wreiddio mewn 'Bywyd yn ei holl gyflawnder' (Ioan 10:10) gan ganolbwyntio ar obaith, sydd cymaint yn fwy nag agwedd. Mae'n cynnwys ymrwymiad i weithredu: yr hyn yr ydym ni'n gobeithio y byddwn yn barod i weithio drosto, cyn belled ag y mae'r pŵer ynom ni ac mae hynny'n cael ei ddangos trwy ymrwymiad yr Esgobaeth i ddarparu digwyddiadau dysgu proffesiynol, Diwrnod Addysg gyda thros 90 yn bresennol, gyda'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Penaethiaid a'r Chydlynyddion Addysg Grefyddol ond yn ychydig o enghreifftiau.

Mae'r Prosiect Rhyng-genhedlaeth https://youtu.be/tfIaEVjyDYo yn chwarae rhan hanfodol mewn canolbwyntio ar lesiant pob un ohonom, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â chronfa Cenhadaeth yr Esgobaeth i brynu labyrinth a fydd yn galluogi plant (a chynulleidfaoedd eglwysi) i gerdded y llwybr ysbrydol, yn eu helpu i ddatblygu'n ysbrydol a chanolbwyntio ar addysg yn yr Esgobaeth.

Mae'r ddolen rhwng Eco Ysgolion ac Eco Eglwysi'n datblygu, gyda phrosiectau ar y cyd ac argymhellir y dylai plant ac athrawon fod yn rhan o Eco Bwyllgor yr Esgobaeth, gan gyfrannu at y drafodaeth ar newid hinsawdd yn enwedig ar ôl i'r Eglwys yng Nghymru gyhoeddi 'Argyfwng Hinsawdd'. Mae prosiectau'r Celfyddydau Creadigol, yn dathlu cymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn dangos ymrwymiad i amrywiaeth ac yn dathlu pwy ydym ni. Mae presenoldeb cyfryngau cymdeithasol addysg yr Esgobaeth wedi'i gydnabod ledled Cymru ac mae'n llwyfan gwerthfawr i ddathlu'r gwaith yn ein hysgolion ac yn dangos i'r byd sut i gysylltu â'n dolenni a'n hadnoddau.

Mae ysgolion ac eglwysi'n gweithio'n agosach gyda'i gilydd. Gobeithir y bydd yr esgob newydd yn annog ac yn cefnogi datblygu'r gwaith hwn ymhellach, yn adeiladu ar lwyddiant y cysylltiadau hyn a chysylltiadau gyda sefydliadau allanol i ddangos yr hyn y mae'r Esgobaeth yn ei wneud trwy addysg ac wrth rannu gwir ystyr Cristnogaeth.

Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd

Mae trydydd nod strategol yr esgobaeth yn datgan 'Bydd yr esgobaeth yn darparu rhaglenni dysgu a disgyblaeth i wireddu ei chenhadaeth.'

Mae pedair swydd llawn amser yn Nhîm Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu. Mae yna dri Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd: Clare Morgan dros Ddeoniaeth Aberhonddu Fwyaf, Siân Parkhouse dros Ddeoniaeth Bro Gŵyr Fwyaf a Siân Smith dros Ddeoniaeth Maesyfed a Llanfair ym Muallt. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys y Parch Rachel Bunting, sy'n Swyddog yr Esgob dros Weinidogaeth Deuluol yn Neoniaeth Ardal Abertawe.

Swyddogaeth y tîm yw cefnogi a galluogi eglwysi yn y rhan hon o'u gweinidogaeth. Mae rhai eglwysi yn yr Esgobaeth eisoes yn cysylltu â phlant mewn sawl ffordd. Mae hynny'n cynnwys Ysgol Sul, Llan Llanast, cefnogi sefydliadau â gwisg swyddogol a gweithio gyda phlant mewn corau eglwysi. Felly, mae rhai eglwysi angen help i hysbysebu digwyddiadau, rhai angen cefnogaeth i ddechrau grŵp newydd, ac eraill angen cefnogaeth a hyfforddiant cyson ar gyfer eu gwirfoddolwyr.

Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gynnal digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc ar draws yr Esgobaeth ac am rannu'r adnoddau a'r rhaglenni diweddaraf yn ehangach trwy hyfforddi, y cyfryngau cymdeithasol a'r daflen newyddion wythnosol. Yn ystod y pandemig, roedd y tîm hefyd yn cynnal digwyddiadau rhithiol, yn darparu addoli wythnosol ar lein, adnoddau i'w llawrlwytho ac yn cyflwyno'r diweddaraf ynghylch newidiadau i gyfyngiadau Covid.

Roedd yn llawenydd gwirioneddol gweld yr eglwysi'n codi i'r her o ganfod ffyrdd newydd a chreadigol i gysylltu â phobl ifanc yn eu cymunedau ac rydym yn freintiedig o fod wedi cael bod yn rhan o rai o'r teithiau hyn. Ein her fwyaf yw nad yw gweinidogaeth ieuenctid a phlant yn aml yn flaenoriaeth yn yr eglwysi, yn aml gydag ychydig neu ddim pobl ifanc yn bresennol ac mae wedi bod yn hynod anodd cysylltu â'r eglwysi hynny . Ar y llaw arall, mae eglwysi gyda gweinidogaethau aeddfed iawn yn gallu bod yn gyndyn i dderbyn hyfforddiant neu adnoddau newydd.

Byddai'r tîm wrth eu bodd yn gweld esgob newydd gyda chalon fawr dros blant a phobl ifanc – nid yn unig fel eglwys y dyfodol ond fel rhan hanfodol a gwerthfawr o'r eglwys heddiw. Credwn y dylai'r genhedlaeth hon fod yng nghanol ein holl waith cynllunio, ar lefel Esgobaethol ac ar lefel plwyf. Hoffwn weld hynny'n cael ei adlewyrchu yn hyfforddiant clerigion ac yn cael ei ddathlu'n gyhoeddus pan mae eglwysi'n camu ymlaen. Roedd y tîm yn hynod falch fod yna groeso i leisiau pobl ifanc ym mhroffil yr esgob newydd ac yn gobeithio y bydd hynny'n parhau pan fydd yr esgob yn ei swydd.

Gweinidogaeth

Mae pumed nod strategol yr esgobaeth yn datgan 'Bydd cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth yn gynaliadwy ac â digon o adnoddau'.

Heriodd Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru (2012) yr Eglwys yng Nghymru i sylweddoli natur gydweithredol pobl Dduw ac annog y rhanbarth i ddatblygu ffurfiau newydd o weinidogaeth leyg ac ordeiniedig i gynnal cenhadaeth yr Eglwys.

Ers 2012, mae Mainc yr Esgobion wedi awdurdodi ffurfiau newydd ar weinidogaeth leyg ac ordeiniedig ac mae hyn wedi arwain at gryn newid ym mhatrwm gweinidogaeth ledled yr Esgobaeth. Er y bu gweinidogaeth draddodiadol Darllenydd yn dirywio, bu cryn dwf mewn gweinidogaeth leyg 'gomisiynedig', yn enwedig swyddogaeth Ymwelydd Bugeiliol ac Arweinydd Addoli Lleyg. Mae llawer o'r rhai oedd â rhan yn y gweinidogaethau lleyg hyn hefyd wedi gwneud y 'daith' at ordeinio.

Mae darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweinidogaeth leyg, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi helpu'r eglwysi lle maen nhw'n gwasanaethu i ddod yn gynyddol fywiog. Hefyd, mae llawer o'r rhai sydd wedi cael eu hyfforddi ar gyfer y swyddogaethau newydd hyn wedi cael eu hannog i ystyried eu galwedigaethau ymhellach.

Yn wir, ar hyn o bryd, mae yna 40 o bobl yn dilyn hyfforddiant 'Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd' yn yr Esgobaeth (187 trwy'r Rhanbarth) ac, yn dilyn o'r cyrsiau hynny, cafodd saith eu hordeinio a daeth un yn Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd. Mae nifer yr Arweinwyr Addoli Lleyg yn yr Esgobaeth wedi cynyddu o 101 yn 2016 i 278 heddiw. Mae nifer y Gweinidogion Hunan-Gynhaliol Lleol wedi cynyddu o 12 yn 2016 i 20 heddiw, ac mae rhagor yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd. Mae yn dri Chaplan Anna (gan gynnwys yr arweinydd Cymraeg).

Er y bu llif cyson o bobl yn cyflwyno eu hunain ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig yn y blynyddoedd diwethaf, mae dal angen canolbwyntio ar ddatblygu'r galwedigaethau a'r eglwyseg sy'n sail i ffordd newydd o fod yn Eglwys. Fe ddylen ni felly, sefydlu gweinidogaeth leyg sy'n weinidogaeth ddilys yn cael ei rhoi i'r Eglwys yn enw Crist ac nid yn unig yn ffordd o ddygymod gyda llai o gleirigion. Fe ddylem ni hefyd gydnabod bod llawer o bobl sy'n ymarfer gweinidogaeth gomisynedig leyg yn hen ac nad ydyn ni'n derbyn llawer o bobl ifanc i'w swyddogaethau hyn.

Ers 2015, mae'r Esgobaeth wedi ordeinio saith o weinidogion cyflogedig a 27 o Weinidogion Hunan-Gynhaliol (saith o'r rhain wedi trosglwyddo i weinidogaeth gyflogedig). Roedd pymtheg yn gwasanaethu'n wreiddiol yn Archddiaconiaeth Aberhonddu ac 19 yn Archddiaconiaeth Bro Gŵyr. Mae 19 yn ferched a 15 yn ddynion. Yn y Gyllideb ar gyfer 2021, mae yna ddarpariaeth i gynyddu'r arian ar gyfer hyfforddi a galwedigaethau o £21,910 i £40,264 er mwyn cynnwys mwy o bobl leyg (wedi'i ohirio oherwydd COVID). Hefyd, neilltuwyd cyllideb ar gyfer Cynhadledd Gweinidogaeth Leyg gyda 50 o gynrychiolwyr (gohiriwyd oherwydd COVID).

Byddai'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn yn croesawu esgob sy'n dangos gweledigaeth eglur ar gyfer datblygu dulliau newydd a'r rhai presennol ar gyfer gweinidogaeth leyg ac ordeiniedig a chyda'r galon am newid i alluogi canolbwyntio o'r newydd ar gyfleoedd i efengylu drwy weinidogaeth electronig.

Caplaniaeth

Mae gan yr Esgobaeth ychydig o gaplaniaid yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae'r weinidogaeth caplaniaeth wedi dirywio cryn dipyn yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, roedd yn bum caplan i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru oedd yn gwasanaethu 18 o orsafoedd tân yn 2009. Ar hyn o bryd, yn 2021, mae yna ddau, un yn offeiriad yn yr Esgobaeth sydd wedi ymddiswyddo oherwydd gofynion ychwanegol Arweinydd Ardal Weinidogaeth. Mae hyn yn nodweddiadol o'r dirywiad mewn caplaniaeth, sy'n gofyn am ystyriaeth o'r newydd yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r dirywiad mewn caplaniaethau'n nodweddiadol ledled y rhanbarth, ac ymddengys nad oes unrhyw gydlynu clir o ddarpariaeth caplaniaeth leyg nac ordeiniedig. Ar hyn o bryd, mae gan yr Esgobaeth ddau gaplaniaeth ddi-dâl mewn ysbytai, dau gaplaniaeth yn y fyddin ac un caplaniaeth mewn prifysgol. Bydd angen i esgob newydd ffurfio agwedd o gydweithredu ar gyfer y weinidogaeth gyhoeddus bwysig hon a chenhadu i gysylltu yn y sectorau cyhoeddus.

Pererindota

Mae mwy o ddiddordeb mewn pererindota'n ddiweddar ym Mhrydain ac adfywiad yn y diddordeb mewn cyrchfannau Cristnogol. Daw 250,000 o bererinion yn flwyddyn i Iona yn yr Alban, a 100,000 i Walsingham yn Norfolk. Mae sawl enghraifft yn yr esgobaeth o gynulleidfaoedd unigol yn llwyddo i drefnu pererindodau i'r Wlad Sanctaidd ac i fannau cysegredig yng ngwledydd Prydain. Ond, gall pererindod hefyd geisio denu'n fwriadol y rhai ar gyrion ffydd a gall fod yn gyfle unigryw i unigolion ddarganfod eu hunain y rhyddid sy'n dod i ganlyn bod yn ddisgybl.

Mae gan yr Esgobaeth gyfoeth o dirweddau a mannau cysegredig a allai fod yn sail i fentrau cenhadu o'r fath. }0{>Mae'r Llwybr Celtaidd a'r Llwybr Sistersaidd, dau o'r llwybrau pererindod cenedlaethol cydnabyddedig, yn croesi i'r de o'r Esgobaeth. Mae'r ddau lwybr yn fannau cychwyn i archwilio'r tirwedd yn fwy manwl, gyda'i safleoedd sanctaidd sy'n cynnwys llawer iawn o ffynhonnau sanctaidd oddi ar y llwybrau cydnabyddedig, gan gynnwys yr un yn eglwys Cennydd Sant yn Llangennydd, Bro Gŵyr, a nodweddion sanctaidd eraill yn ein tirwedd fel yr ywen ym mynwent Defynnog.

Mae hyn yn gyfle gwych i'r Esgobaeth ddatblygu mentrau y mae'r Eglwys yng Nghymru eisoes wedi'u sefydlu i ddatblygu Eglwysi Pererinion, adnodd ychwanegol pwysig i gefnogi pererindodau Cristnogol. Byddai'n rhaid iddyn nhw fod o beth gwerth treftadaeth ac, fel rheol, yn adeiladau bychan, syml ar ffurf cell ac mewn ardaloedd ymwelwyr gyda sylfaen o gefnogaeth leol i ofalu amdanyn nhw a'u defnydd yn y dyfodol.

Byddai'r rhai sy'n gweithio yn y maes yn gwerthfawrogi esgob sy'n ysbrydol hyderus wrth ddatgan yr Efengyl ac sy'n gallu annog a chefnogi arloesedd.

Eglwys y Santes Fair Abertawe

Mae Eglwys y Santes Fair yn adeilad addas ar gyfer achlysuron mawr yn Abertawe a hanner ddeheuol yr Esgobaeth. Dyma gartref cadair yr esgob yn Ninas Abertawe. Y Santes Fair yw Eglwys Ddinesig y ddinas ac yn ogystal â'r ddau Warden Eglwys mae yna ddau Warden yr Arglwydd Faer sy'n cynnal cysylltiadau rhwng yr Eglwys a'r Ddinas. Ceir cydlynu rheolaidd gydag Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg, yr Uchel Siryf a'r Arglwydd Faer. Daw rhai mewn uchel swyddi , ASau, Aelodau'r Senedd a Chynghorwyr i ddigwyddiadau, gwasanaethau a chyngherddau yn rheolaidd yn Eglwys y Santes Fair. Mae'r cyrff dinesig eraill sy'n defnyddio'r eglwys yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau militaraidd a grwpiau gyda gwisg swyddogol. Profodd Eglwys y Santes Fair ei hunan yn adnodd diwylliannol enfawr i'r ddinas, yn cynnig lle amgen realistig i fannau cyhoeddus eraill. Mae'n cynnig gweinidogaeth a chymorth yn ymarferol ac yn fugeiliol i'r rhai sydd dan anfantais yng nghanol y ddinas. Cyn Covid-19 roedd hynny'n cynnwys brecwast/cinio wythnosol ar gyfer y rhai unig, bregus a'r rhai'n byw ar ymylon cymdeithas ac mae ganddi gysylltiad cynyddol hefyd gyda myfyrwyr y brifysgol.

Eglwys Gadeiriol Aberhonddu

Swyddogaeth Eglwys Gadeiriol Sant Ioan yr Efengylydd yn yr Esgobaeth, fel y Fam Eglwys, yw bod yn esiampl o ymarferion llywodraethiant da, yn strategol ac yn ariannol a hefyd o ran gweinidogaeth ar y cyd a chenhadaeth gysylltiol. Yma hefyd mae sedd yr esgob, ac yma mae ef / hi'n cynnull clerigion a lleygwyr mewn canolbwynt o undod a gweinidogaeth esgobol sy'n cael ei rannu ac sy'n cefnogi ac yn annog yr esgob yn ei g / alwedigaeth. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Addysg ac yma y cynhelir gwasanaethau blynyddol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn ceisio bod yn gymuned gynhwysol, ffyddlon a santaidd wedi'i gwreiddio mewn cariad gweithgar at Dduw, ei gread ac at ein cymdogion trwy weddi, brawdoliaeth a gwasanaeth. Gyda sylfaen o weddi ac addoli beunyddiol, wedi'i ddyrchafu gan ein traddodiad corawl a'i fywiocau trwy'n brawdoliaeth a'n dysgu, rydym yn tystiolaethu'n hyderus i newyddion da cymodol Iesu Grist trwy'n cenhadaeth a'n gweinidogaeth i Aberhonddu, yr Esgobaeth a'r byd. Yn allwedd i'n cenhadaeth yw:

GWEDDI AC ADDOLI

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn sefyll fel carreg filltir i addoli Duw 'yn ysblander ei sancteiddrwydd; (Salm 96:6). Roedd y mynachod a oedd yn byw yma unwaith yn cysegru eu bywydau i'r ddisgyblaeth ddyddiol o weddi. Ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, daeth yr adeilad yn lle addoli, yn bennaf ar gyfer tlodion Aberhonddu. Roedd gweddi ac addoli'n dal i ffurfio bywyd cymuned yr Eglwys Gadeiriol trwy wasanaethau cyhoeddus rheolaidd y Cymun Bendigaid a'r Gosber, grwpiau defosiynol a gweddïau personol yr holl bobl sy'n ymweld â ni.

LLETYGARWCH

Mae'r Ysgrythur yn galw'r Eglwys yn 'Gorff Crist, pobl Duw wedi'u hymgasglu, brawdoliaeth o gariad'. Mae bod yn Gristion felly, yn gymaint o fod yn perthyn ag yw o fod yn credu. Er hardded ein hadeilad, mae Eglwys Gadeiriol Aberhonddu, yn bennaf, y bobl sy'n addoli, gweddïo, canu, caru'i gilydd, dysgu a mwynhau brawdoliaeth ei gilydd. Rydym yn ymdrechu i fod yn lle mae pobl eraill yn gallu gweld a phrofi cariad Duw.

DYSGU

Mae astudio, myfyrio a ffurfiant wedi bod yn ganolog i'r ffydd Gristnogol erioed. Galwodd Iesu 12 o ddisgyblion, a ddaeth yn ddiweddarach i hyfforddi eraill ynghylch yr hyn roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Yn ddiweddarach, daeth yr eglwys yn geidwad y ddysgeidiaeth hynafol, sefydlodd ysgolion a ffurfio prifysgolion. Ar un adeg, yr Eglwys Gadeiriol hon oedd cartref un o lyfrgelloedd mwyaf Cymru. Mae'r traddodiad yn parhau heddiw gyda'n hastudiaeth wythnosol o'r beibl, grwpiau dysgu, cynadleddau academaidd, gweithgareddau plant, côr a'n gwaith gydag Ysgol y Priordy. Rydym yn ceisio ffurfio pobl yn nysgeidiaeth Crist ac annog dilyn doethineb a dealltwriaeth.

STIWARDIAETH HAEL

Creodd Duw ddynoliaeth i fod yn stiwardiaid ei gread, gan geisio bob amser meithrin ffyniant pawb. Mae hyn

Parhad ar dudalen 28

O dudalen 27

yn gofyn am haelioni a thosturi i rannu ein talentau, ein harian a'n hadnoddau yng nghenhadaeth achubol Crist i 'wneud pob peth yn newydd' (Dat. 21.5) ac i gynnig 'llawnder bywyd' (Ioan 10.10). Rydym wedi ymrwymo i stiwardiaeth dda o'n cyllid ac o'n rhoi, o'n cymunedau lleol, treftadaeth ein Heglwys Gadeiriol ac wrth ddatblygu a chysylltu gyda sefydliadau partner gyda mentrau ecogyfeillgar.

GWASANAETH

Cariad yw'r rheswm pam ein bod yn Gristnogion. Meddai Crist, 'Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych' (Ioan 13.35). Rydym yn ceisio bod yn ufudd i orchymyn Crist trwy garu a chefnogi'n gilydd a'r rhai sy'n dod atom. Mae clerigion a lleygwyr yn ymweld â'r cleifion, yn helpu'r sawl mewn angen, yn cysuro'r rhai mewn profedigaeth, yn gweithio gydag elusennau lleol ac yn darparu gofal mewn ffyrdd eraill.

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn ceisio bod yn le o:

• Groeso cynhwysol ble mae pawb yn cael lle i berthyn, yn cael gwrandawiad ac yn derbyn anogaeth. Fel Mam Eglwys Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu rydym yn ceisio bod yn gartref i bawb sy'n perthyn i'r Esgobaeth. Fel man addoli yn Aberhonddu, rydym yn ceisio bod yn groesawgar i bawb sy'n byw yn ac o gwmpas ein tref. Fel atyniad hanesyddol, rydym yn ceisio cyfarch pererinion a thwristiaid o bob rhan o'r DU a'r byd. Yn wir, rydym yn ceisio, trwy ofalu am ein tiroedd, bod yn groesawgar i'r holl greaduriaid sy'n byw ar ein safle hynafol. Mae'n lle i gael eich derbyn gan eraill tra'n cael eich trawsnewid gan Dduw.

• Haelioni, byddwn yn gosod anghenion a llesiant pobl eraill o flaen ein rhai ni, hyd yn oed pan fyddwn yn anghytuno. Oherwydd bod Duw wedi bod yn hael yn creu ac yn gwaredu pob un ohonom, rydym ni'n credu bod yn rhaid i ninnau fod yn hael wrth eraill. Dyma sut rydym ni'n ceisio dangos y cariad a'r undod y mae Duw'n ein galw iddo fel Cristnogion.

• Tosturi byddwn yn ceisio ysgwyddo beichiau'n gilydd ac ymarfer trugaredd. Mae tosturi o'r fath gofyn i ni fod yn amyneddgar gyda'n gilydd, yn annog yn hytrach na beio a chefnogi'n gilydd yn weithgar yn ein cenhadaeth a'n gweinidogaeth.

• Llawenydd byddwn yn ddiolchgar am fendithion anfeidrol Duw ac yn ceisio ymhyfrydu yn ein gilydd ac yng nghread Duw. Rydym ni'n ymdrechu i fynegi llawenydd Duw yn ein gwaith a'n brawdoliaeth gyda'n gilydd.

Mae Eglwys Sant Thomas yn Abertawe wedi cael gweddnewidiad gwerth £1m yn ddiweddar. Mae'r eglwys yn gartref i Baby Basics, sy'n cefnogi mamau a theuluoedd newydd, y banc bwyd lleol a'r Undeb Credyd, ac yn ymgorffori neuadd a chaffi cymunedol

Yr Esgobaeth ar ôl COVID-19

Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar bron bob agwedd o'n bywyd eglwysig. Yn sicr, roedd yna heriau. Ond ymddangosodd hefyd amrywiaeth o ymatebion positif o gwmpas yr Esgobaeth. O ddatblygu sgiliau newydd (e.e. ffrydio'n fyw neu olygu fideos) i gyfleoedd newydd i gefnogi cymunedau mewn angen (e.e. darparu prydau bwyd neu ddanfon meddyginiaethau, cefnogi trwy 'Baby Basics'), bu cymunedau'r eglwys yn addasu. Gellir dysgu llawer o'r profiad hwn.

Bydd rhai newidiadau'n cael effeithiau parhaol y byddwn yn ceisio eu cadw, yn enwedig ynghylch perthynasau. Er enghraifft, mewn sawl plwyf gwledig, roedd symud i addoli ar lein yn gyfle i ddod â phobl at ei gilydd mewn ffordd nad oedd neb wedi llwyddo i'w wneud o'r blaen. Mewn rhannau eraill o'r Esgobaeth, daeth plwyfi at ei gilydd i redeg cyrsiau disgyblaeth ar lein. Daeth hyn â grwpiau mwy at ei gilydd, a mwynhau. Aeth ag un ddeoniaeth ei Chwrs y Grawys ar Zoom a chymerodd mwy o bobl ran nag erioed o'r blaen. Llwyddodd rhai eglwysi i ganfod ffyrdd creadigol i wneud eu hymestyn allan yn Covid-ddiogel ac felly gefnogi oedolion a phlant bregus yn awr eu hangen.

Erbyn hyn, rydyn ni yn y cyfnod adfer o'r pandemig. Wrth edrych ymlaen, rydyn ni'n gobeithio ail ffurfio ein bywyd, cadw'r gorau o'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu a gadael ar ôl yr hyn nad yw bellach yn ddefnyddiol. Rydyn ni'n chwilio am esgob a fydd yn gweld y blynyddoedd i ddod fel cyfle i adnewyddu yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd.

Heriau a Chyfleoedd

Mae'r Esgobaeth angen, ar frys, synnwyr o'r newydd o'i hunaniaeth wrth iddi geisio bod yn gorff cydlynol, unol, yn ei chenhadaeth i'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Fel Esgobaeth, rydym ni'n ceisio adeiladu ar y sylfaeni a osodwyd gan ein Hesgob diweddaraf, yn enwedig ei anogaeth i gofleidio'r risgiau a ddaw, yn anorfod, wrth geisio gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, yn ogystal ag yn y ffyrdd traddodiadol o weinidogaethu.

Er hynny, mae penodiad ei olynydd, a hefyd brofiad yr argyfwng Covid-19, yn foment 'Kairos' amserol a thyngedfennol (gweler Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru 2012) i ystyried yn ddifrifol yr heriau allweddol, yr heriau i'n cenhadaeth sydd eto i'w hateb yn adeiladol. Bydd canmlwyddiant yr Esgobaeth yn 2013 yn gyfle arall i gynnwys yr Esgobaeth gyfan yn y broses o adeiladu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Pe bydden ni'n gallu cydio'n llwyddiannus yn y cyfleoedd hyn, byddai hynny'n sail i gynnydd pellach yn y dyfodol, bydd ein Hesgob newydd angen set o sgiliau personol, penodol. Yr heriau a'r cyfleodd pwysicaf sy'n ymddangos o'n hadolygiad sylfaenol, a grybwyllir yn yr adrannau blaenorol ac y bydd angen y sgiliau hyn ar eu cyfer, yw fel a ganlyn:

• Mae'r Esgobaeth angen, ar frys, synnwyr o'r newydd o'i hunaniaeth wrth iddi geisio bod yn gorff cydlynol, unol, yn ei chenhadaeth i'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae ei daearyddiaeth wastad wedi gwneud hyn yn anodd ac, yn ogystal â gofynion a phwysau gweinidogaeth drefol a gwledig, mae yna ddiffyg hyder cyffredinol y bydd ein cynllun strategol presennol yn cynnig atebion. Paratowyd y strategaeth bresennol yn 2013 wrth gyflwyno'r Ardaloedd Gweinidogaeth. Mae'n hen bryd, erbyn hyn, ei adolygu'n sylfaenol ac yn realistig i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r heriau y mae'r Esgobaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac asesu ai'r staff, y strwythur a'r trefniadau ariannu presennol, yn lleol ac yn ganolig, yw'r ffordd orau o'i ddarparu. Mae'n rhaid i'r heriau allweddol sydd angen sylw gynnwys y ddemograffeg a ragwelir yn aelodaeth yr eglwys, faint o glerigion ordeiniedig fydd yna yn y dyfodol a gweithredu i dalu sylw i'r ffaith fod nifer anghynaladwy o fannau addoli yn dal ar agor.

• Arweiniodd diffyg hyder cyffredinol yng ngallu'r Esgobaeth i ddatrys y problemau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd at forâl isel a marwaidd mewn plwyfi, yn enwedig mewn mannau gwledig. Dylid gwella'r gefnogaeth fugeiliol i'n clerigion a thalu sylw i'w llesiant. Dylai'r Adolygiad Clerigol Blynyddol Rhanbarthol a ail lansiwyd yn ddiweddar fod yn ffordd o amlygu anghenion unigol, cyn belled â bod y canlyniadau'n cael digon o sylw ac yn cael eu gweithredu ar lefel Esgobaethol yn ôl y gofyn.

• Bratiog yw gweithrediad yr Ardaloedd Gweinidogaeth ledled yr Esgobaeth, gan ddibynnu ar faint o gefnogaeth a derbyniad sydd ar gael yn lleol. Gwnaed rhai ymdrechion glew i yrru trawsnewid ac mae'r rhain wedi arwain at ganlyniadau da. Yr un pryd, mae, ar y gorau, groeso llugoer a pheth gelyniaeth agored, i newid gan glerigion a chynulleidfaoedd, y clerigion yn bennaf ar fin ymddeol. Mae demograffeg oedran y cynulleidfaoedd sy'n amharod i wynebu'r rheidrwydd o newid a'r cysyniad o rannu gweinidogaeth rhwng gweinidogion ordeiniedig a lleyg wedi llesteirio cynnydd.

• Mae'n rhaid talu sylw i annog gweinidogaethau lleol yn yr Esgobaeth ac annog hefyd y rhai sy'n cynnig eu hunain ar gyfer yr alwedigaeth hon os yw safonau gweinidogaeth a chenhadaeth i'w cynnal yn y tymor hir. Roedd yn rhagdybiaeth ganol o'r cysyniad o Weinidogaeth Ardal y byddai cynnydd yn nifer y galwadau i'r weinidogaeth leyg. Dylid astudio a chanfod atebion pam na wireddwyd y disgwyliadau hyn yn yr Esgobaeth, gyda'r bwriad penodol o gynyddu nifer o Ddarllenwyr yng ngogledd yr Esgobaeth. Dylai'r astudiaeth hefyd ystyried a yw'r darllenwyr presennol yn cael eu defnyddio hyd eithaf eu gallu a'u hyfforddiant e.e. dathlu mewn Cymun trwy Estyniad ac mewn angladdau.

• Er bod gan waith plant, ieuenctid a theuluoedd arweinyddiaeth gydag egni a gweledigaeth, nid yw wedi cael digon o gefnogaeth na blaenoriaeth gan yr Esgobaeth. Ychydig, neu ddim, cysylltiad sydd gan sawl ardal o'r Esgobaeth gyda phlant a'r rhai yn eu harddegau a hyd yn oed lai o ran categeiddio a ffurfio'n briodol.

Cymaint yw'r diffyg ar hyn o bryd mewn taliadau i'r Gyfran Gweinidogaeth, ac a ragwelir yn y dyfodol, nes bod sefyllfa ariannol yr Esgobaeth yn awgrymu fod yna broblemau sylfaenol sydd angen sylw yn y tymor byr i ganolig. Ar lefel eglwysi unigol, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth, gyda gwahanol symiau ar gael o gronfeydd cyfalaf i ymdrin ag ôl groniad o waith cynnal a chadw a threigl amser ar adeiladau sydd ganrifoedd oed. Golyga hyd fod sylw cynulleidfaoedd, yn lle cael ei hoelio ar genhadu ac efengylu'n allanol, yn cael ei gyfeirio'n fewnol i ganfod modd o 'gadw'r to'.

Holy Trinity Church, Llandrindod Wells, in the north of the diocese

• Mae'r defnydd helaeth o'r dechnoleg ddigidol, newydd, i ddod â gwasanaethau ac addoliad i'r rhai nad ydyn nhw'n gallu mynd i eglwys yn gorfforol wedi lliniaru peth o ddrwg effeithiau'r pandemig ar ein bywyd fel Esgobaeth. Fodd bynnag, mae'r problemau a'r heriau oedd yn bodoli cyn y pandemig, llawer o'r rhain yn systemig, wedi eu gwaethygu'n sylweddol, gan wneud eu datrys y fwy fyth o fater brys.

Mae Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu yn cael ei chlymu gyda'i gilydd gan amrywiaeth gyfoethog o gyd-destunau, diwylliannau a thraddodiadau. Mae'n un o'r mannau mwyaf deniadol i fyw a gweithio, o Fugeildy yn y gogledd i Rosili yn y de. Mae gogledd yr Esgobaeth yn ardal o dirweddau amrywiol a hanesyddol, yma y mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n gartref i rwydwaith o bobl sy'n cyfrannu at yr amrywiaeth a'r economi o fyw a gweithio mewn trefi marchnad a phentrefi.

Ffolineb, yn amlwg, fyddai bychanu'r trafferthion y mae'r Esgobaeth yn ei wynebu. Ond, nid busnes i'w reoli yw Eglwys Dduw, na sefydliad dynol i'w gynnal a'i gadw. Lle bynnag y mae Newyddion Da Iesu Grist yn cael ei gyhoeddi, twf mewn bywyd newydd yw'r canlyniad anochel a llawen. Ar yr adegau mwyaf anodd yn hanes yr Eglwys - yn ogystal ag mewn cyfnodau o ffyniant - mae fflam y ffydd wedi'i chadw mewn cymunedau o weddi ac addoli. Mae yna eisoes egin gwyrdd yn ymddangos yn yr Esgobaeth a, gyda gofal tyner a llawer o docio, gallai esgob newydd baratoi'r ffordd i Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu ffynnu fel arwydd o Deyrnas Dduw ac fel ffordd fywiog at iachawdwriaeth.

Yr Eglwys Ehangach ac Esgobyddiaeth

Mae Esgobion yr Eglwys yng Nghymru'n rhannu'r cyfrifoldeb dros genhadaeth yr Eglwys i'r eglwys ehangach y tu hwnt i'w hesgobaethau yng Nghymru. Mae'r gwaith o arwain yr eglwys yn ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth yn cael ei fynegi mewn sawl ffordd ond, yn bennaf, trwy bortffolio o gyfrifoldebau allweddol sy'n cael eu rhannu gyda chydweithwyr esgobaethol fel rhan o waith Mainc yr Esgobion. Mae'r Fainc, fel arfer, yn adolygu ei dyraniadau portffolio yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl ethol Esgob newydd.

Mainc yr Esgobion

Mae'r Fainc yn cyfarfod bob mis am ddiwrnod, a phedair gwaith y flwyddyn am dridiau, i ymgynghori ar faterion o bwys cyffredinol. Mae'r cyfarfodydd misol yn canolbwyntio ar drafod busnes. Mae'r cyfarfodydd tridiau ar gyfer adfywio'n ysbrydol, adeiladu perthynasau, sefydlu gweledigaeth a datblygu strategaeth. Archesgob Cymru sy'n arwain cyfarfodydd y Fainc, ac mae aelodau o staff o'r tîm cenedlaethol yn bresennol i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol. Yn ymuno â'r esgobion yn eu cyfarfodydd mae Prif Weithredwr Corff y Cynrychiolwyr sydd â chyfrifoldebau cyfansoddiadol fel yr Ysgrifennydd Lleyg i'r Corff Llywodraethol a Chofrestrydd yr Archesgob.

Drwy weithio'n eithriadol o agos gyda staff y mae eu gwaith yn golygu cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros dasgau ynghylch portffolio, a hefyd gyda Phennaeth Athrofa Padarn Sant, derbynnir yn gyffredinol fod yr esgobion yn darparu arweinyddiaeth i'r eglwys gyfan. Mae'r esgobion yn treulio amser yn astudio gyda'i gilydd ac yn gweddïo fel bod gweinidogaeth yn cael ei rannu o fewn dealltwriaeth o fywyd a galwad Crist ar ein bywydau.

CYFRIFOLDEBAU PORTFFOLIO

Ar ysgwyddau'r esgobion y mae'r cyfrifoldeb am arwain yr eglwys mewn rhai meysydd penodol o genhadaeth a gweinidogaeth, megis Gwaith yr Eglwys ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd, buddsoddi'n foesegol, efengylu a thwf yr eglwys a datblygu blaengar, ffydd, trefn ac undod, hyfforddi, ffurfiant a datblygiad gweinidogaethol gyda Athrofa Padarn Sant a hefyd trwy addysg yn ein Hysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r meysydd gwaith hyn yn cael eu cefnogi gan staff Corff y Cynrychiolwyr ac mae pob un yn derbyn y cyllid priodol a gytunir ymlaen llaw ar gyfer ymgyrchoedd a chyfarfodydd fel rhan o'r broses flynyddol o osod cyllidebau. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn galluogi'r Esgobion i fod yn greadigol ac yn genhadol, i osod cyfeiriadau newydd ac arloesol i'r eglwys, gan weithio'n agos â'r Corff Llywodraethol a'i Bwyllgor Sefydlog i gymeradwyo'r gwaith. Mae'n rhaid i Esgob newydd Abertawe ac Aberhonddu weithio'n agos gyda chydweithwyr ac â'r tîm cenedlaethol i ddod ag egni a chyfeiriad i'r rhan hwn o'r gwaith esgobaethol.

CRED AC ADDOLIAD

Mainc yr Esgobion sy'n gyfrifol am gyflwyno deddfwriaeth i'r Corff Llywodraethol a fyddai'n effeithio ar ein haddoliad neu'n dysgeidiaeth awdurdodedig. Dyma sut y maen nhw'n mynegi eu cyfrifoldebau fel ceidwaid addoliad a ffydd yr Eglwys. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn mynegi'r dyhead sydd gan yr esgobion am undod oherwydd mae gofyn cael cymeradwyaeth pob un o aelodau'r Fainc i wneud newidiadau i'n haddoliad neu i'n hathrawiaeth.

Gweledigaeth a Diben Cyffredin

Nid yw'r Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd yn gweithredu unrhyw weledigaeth unigol gyffredin, ond mae pob esgob yn aelod o'r Corff Llywodraethol a'i Bwyllgor Sefydlog. Yn ddiweddar, mae gwahanol gyfarfodydd o fewn yr Eglwys wedi'n galluogi i ystyried a oes yna edeifion cyffredin yn ymddangos sy'n awgrymu ein bod yn gallu rhannu yng ngwaith Crist gyda chysylltiadau cryfach rhwng yr Esgobaethau ac i ganolbwyntio ar ein hadnoddau. Bydd gofyn i Esgob nesaf Abertawe ac Aberhonddu gofleidio'r dyhead newydd hwn, sy'n dyfnhau, i weinidogaethu fel un Eglwys yng Nghymru gydag Esgobaethau yn gweithio'n gynyddol agos gyda'i gilydd.

Strwythur a Staffio Cenedlaethol

STRWYTHUR CENEDLAETHOL A CHYFRANOGAETH YR ESGOBION

Y prif gyrff strwythurol ar lefel genedlaethol yn yr Eglwys yng Nghymru yw'r Corff Llywodraethol, Corff y Cynrychiolwyr a Mainc yr Esgobion. Mae gan bob un o'r cyrff hyn sawl is-bwyllgor sy'n ymgymryd â gwaith penodol, arbenigol ar eu rhan

Y CORFF LLYWODRAETHOL A'R PWYLLGOR SEFYDLOG

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar ffydd, trefn ac addoliad yr Eglwys yng Nghymru; mae hefyd yn gosod rheoliadau ar gyfer rheolaeth gyffredinol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn derbyn adroddiadau gan wahanol grwpiau a chyrff yn yr Eglwys yng Nghymru yn ogystal â gan sefydliadau allanol y mae gan yr Eglwys yng Nghymru berthynas neu gysylltiad â nhw. Mae pob esgob yn aelod ex officio o'r Corff Llywodraethol a'i Bwyllgor Sefydlog.

Y Pwyllgor Sefydlog, mewn gwirionedd, yw pwyllgor gwaith y Corff Llywodraethol. Mae ganddo rai pwerau sy'n deillio iddo o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a'r Corff Llywodraethol ei hunan. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Sefydlog ym mywyd strategol yr Eglwys yng Nghymru yn ehangu ac yn ddiweddar mae wedi dechrau cyfarfod ar y cyd â Chorff y Cynrychiolwyr ac â Mainc yr Esgobion o dro i dro i fod yn fforwm i gynnal trafodaethau strategol strwythuredig.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, fel arfer gyda chyfarfodydd preswyl dau ddiwrnod; mae'r Pwyllgor Sefydlog fel arfer yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

MAINC YR ESGOBION

Dim ond chwe esgob yr Eglwys yng Nghymru sy'n eistedd ar Fainc yr Esgobion. Mae manylion pellach gwaith y Fainc uchod.

CORFF Y CYNRYCHIOLWYR

Corff y Cynrychiolwyr yw'r corff corfforaethol sy'n geidwad asedau ariannol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n elusen gofrestredig ac mae aelodau Corff y Cynrychiolwyr yn ymddiriedolwyr gyda chyfrifoldeb ymddiriedolwyr dros gynnal trosolwg o'r elusen yn unol â deddfwriaeth elusennol a rheoliadau'r Comisiwn Elusennau. Mae'r asedau'n cynnwys portffolio o fuddsoddiadau, a'r incwm o'r rhain yw prif ffynhonnell incwm y mae Corff y Cynrychiolwyr yn ei ddefnyddio i ariannu cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, Cynllun Pensiwn Clerigion; a'r teitl cyfreithiol i adeiladau eglwysig yr Eglwys yng Nghymru, persondai a neuaddau eglwysi, yn ogystal â thir ac adeiladau eraill.

Mae Corff y Cynrychiolwyr yn paratoi cyllideb flynyddol er mwyn i'r Eglwys yng Nghymru weithredu ac mae'n darparu cyllid strwythurol i'r chwe Esgobaeth.

Corff y Cynrychiolwyr yw cyflogwr y staff sy'n gweithredu ar lefel cenedlaethol.

Fel arfer mae Corff y Cynrychiolwyr yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ond nid yw pob un o'r esgobion yn aelod: mae Archesgob Cymru'n aelod ex officio, a hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog.

ATHROFA PADARN SANT

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan annatod o'r Eglwys yng Nghymru yn darparu hyfforddiant, ffurfiad a datblygiad gweinidogaethol yr Eglwys. Mae hynny'n cynnwys hyfforddi'r rhai sy'n paratoi ar gyfer gweinidogaeth; datblygiad gweinidogaethol parhaus i'r rhai ym mhob rhan o weinidogaeth; paratoi a datblygu gweinidogion lleyg ar gyfer amrywiaeth o weinidogaethau ledled Cymru a darparu cyfleoedd i feithrin disgyblaeth un ai trwy gynnig cyrsiau neu trwy ddarparu adnoddau a deunyddiau. Mae Padarn Sant hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau hyfforddi arbenigol a nifer o gyrsiau ôl-raddedig.

Mainc yr Esgobion sy'n cadw trosolwg strategol ar Padarn Sant. Mae Padarn Sant yn adrodd i Gorff y Cynrychiolwyr ar faterion ariannol, staffio, ar ei gyfrifoldebau statudol ac ar ei ymrwymiadau cyfreithiol a chytundebol.

Mae gan Padarn Sant dîm o fwy na 30 o staff ar draws rhychwant o swyddogaethau cefnogol, gweithredol ac academaidd. Mae gan yr esgobion, ar y cyd fel Mainc ac yn unigol, berthynas agos gyda staff Padarn Sant trwy'u rôl strategol genedlaethol wrth redeg Padarn Sant ac wrth osod yr anghenion hyfforddi ar gyfer eu Hesgobaethau eu hunain.

Y SWYDDFA GENEDLAETHOL

Staff yn y swyddfa genedlaethol yng Nghaerdydd sy'n rhoi'r gefnogaeth weithredol a gweinyddol ar gyfer gwaith y Corff Llywodraethol, Corff y Cynrychiolwyr a Mainc yr Esgobion. Mae'r tîm cenedlaethol yn cynnwys tua 50 o staff ac mae'r esgobion yn eu cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda sawl un.

Mae gan rai aelodau o'r tîm cenedlaethol gyfrifoldeb ymarferol dros waith sy'n berthnasol i bortffolios yr esgobion; mae gan eraill gyfrifoldebau arbenigol, uwch, dros feysydd gwaith sy'n cynnwys materion cyfreithiol a chyfansoddiadol, cyllid, gwasanaethau pobl, eiddo, diogelu, TGCh a gwasanaethau cefnogi llywodraethiant. Mae'r esgobion yn cydweithio gyda llawer o aelodau'r staff o ddydd i ddydd i drafod materion ac i ofyn am gyngor a chefnogaeth. Bydd gan staff gyda chyfrifoldeb ymarferol dros waith portffolio berthynas waith arbennig o agos gyda'r esgob sydd â throsolwg o'r portffolio hwnnw.

Esgob Abertawe ac Aberhonddu: Manyleb Person

Credwn fod prif alwedigaeth a rhinweddau esgob wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn yr enghraifft a welir yn yr Ysgrythurau ac yn y patrwm sydd wedi'i etifeddu trwy'r Traddodiad Anglicanaidd. Mae hynny'n cael sylw priodol yn yr Ordinal ac yn benodol yng Ngofwy'r Esgob.

'Mae esgobion yn cael eu galw i wasanaethu ac i ofalu am bobl Dduw. Gan gofio'r Bugail Da, a roddodd ei fywyd dros ei ddefaid, maen nhw yma i garu a gweddïo dros y rhai yn eu gofal, i adnabod eu pobl ac i gael eu hadnabod ganddyn nhw. Maen nhw yma i arwain eu pobl mewn gweddi a mawl ac i lywyddu yn yr Ewcharist Sanctaidd. Maen nhw yma i fedyddio a rhoi bedydd esgob, rhoi gollyngdod a bendithio, i feithrin pobl Dduw ym mywyd yr Ysbryd a'u harwain yn ffordd sancteiddrwydd. Maen nhw yma i feithrin a dirnad rhoddion yr Ysbryd ym mhawb sy'n dilyn Crist, yn eu comisiynu i weinyddu yn ei enw ef. Maen nhw yma i ordeinio diaconiaid ac offeiriadon ac i rannu yn ordeiniad eu cyd esgobion.

Fel prif fugeiliaid, eu dyletswydd yw cynnal undod yr Eglwys, siarad yn enw Duw a dehongli'r efengyl o iachawdwriaeth. Ynghyd â'u clerigion a'r bobl maen nhw i hyrwyddo cenhadaeth yr eglwys a bod â gofal arbennig dros bawb, yn enwedig y tlodion, yr ysgymun a'r anghenus.

Gan ddilyn esiampl yr apostolion, maen nhw i gyhoeddi'r efengyl, cyhoeddi'r gwir yn eofn a gweithio dros gyfiawnder a heddwch. Maen nhw i fod yn drugarog, ond yn gadarn, ac i weinyddu disgyblaeth gyda thrugaredd.

Fy mrawd / chwaer, bydded cariad yn ddidwyll; casáu yr hyn sy'n ddrwg; cadw at yr hyn sy'n dda. Gweddïa'n ddi-baid; bydd yn wrol; paid byth â 'digalonni; paid â gadael i neb dioddef niwed trwy dy esgeulustod; paid â gosod dy ddwylo'n sydyn ar neb; pregetha'r efengyl; iachau'r cleifion; llawenha yn yr Arglwydd.

Rydyn ni credu bod pum delwedd allweddol yn deillio o'r Gofwy sy'n ein helpu i ddangos y rhinweddau a'r doniau y mae'r esgob newydd eu hangen. Rydyn ni'n credu fod yn rhaid i esgob newydd Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu fod yn offeiriad, gweinidog, Efengylydd, bugail ac yn was arweiniol.

Rydym yn edrych am esgob a fydd yn:

OFFEIRIAD

• gyda chalon am yr Efengyl, wedi'i ffurfio gan, ac wedi'i h/ymrwymo i, ddathlu'r sagrafennau;
• wedi'i g/wreiddio mewn gweddi, ysgrythur a thraddodiad a, thrwy eu bywyd, yn denu eraill i dyfu'n llawen mewn ffydd, dysg a gobaith;
• wedi'i h/ymrwymo gan ei h/esiampl eu hunain, yn arwydd gweladwy o fywyd Cristnogol da.

GWEINIDOG

• a fydd yn gofalu am y clerigion esgobaethol yn ei g/ofal, yn cymryd amser i'w hadnabod fel unigolion a'u herio i fod yr offeiriadon gorau y gallen nhw fod yng Nghrist.
• sy'n 'gwisgo'i h/awdurdod yn ysgafn' ond gyda phrofiad amlwg am godi a chynnal morâl;
• a fydd yn gallu gwrando'n ofalus a chyda'r gostyngeiddrwydd i dderbyn cyngor oddi wrth eraill;
• a fydd yn gwahodd y teulu esgobaethol i fyw'n hael ac yn onest, yn cydnabod cyd dibyniaeth ac anghyflawnder;
• a fydd yn wrandäwr yn ogystal â siaradwr, heb ofn crybwyll gwirioneddau amhoblogaidd er mwyn galluogi pobl, eglwysi lleol a phwyllgorau, i ganolbwyntio meddyliau a gweithredu ar Iesu Grist.

EFENGYLYDD

• bydd yn cyhoeddi'r efengyl yn hyderus ac yn gyhoeddus mewn modd y bydd y rhai y sydd gyda nhw yn ei ddeall;
• sydd â chywreinrwydd diwinyddol ac yn gallu mynegi a dysgu ffydd yr Eglwys i'r rhai y tu fewn a'r tu allan;
• bydd yn galluogi'r Esgobaeth i gyhoeddi Newyddion Da Iesu Grist trwy ymestyn allan i bob adran o gymdeithas, yn enwedig plant, teuluoedd a phobl ifanc.

BUGAIL

• bydd yn symbol o undod ac yn tynnu'r teulu esgobaethol at ei gilydd i ffurfio gweledigaeth gyffredin a fydd yn ein hysbrydoli am y degawd nesaf;
• bydd, os nad yw eisoes yn rhugl yn y Gymraeg, yn barod i ddysgu Cymraeg i safon dda at ddefnydd litwrgaidd ac i sgwrsio;
• sydd ag angerdd ac ymrwymiad ar gyfer galluogi a chefnogi cysylltiad yr Eglwys gyda chymdeithas, yn enwedig y rhai ar yr ymylon a'r rhai sy'n cael eu hesgeuluso.

GWEINYDD ARWEINIOL

• gyda sgiliau sicr mewn cynllunio strategol a phrofiad o reoli newid yn effeithiol;
• yn awyddus i gydweithio gydag eraill, yn cydnabod eu talentau a'u rhoddion, yn enwedig ymysg staff yr esgob a'r pwyllgor sefydlog, er mwyn gweithredu gweledigaeth a phenderfyniadau strategol;
• yn gallu adeiladu ymddiriedaeth a chyfarwyddo gweithio mewn tîm i gyflawni amcanion penodol, i sefydlu gwerthoedd a disgwyliadau clir ac i ddirprwyo cyfrifoldeb yn effeithiol
• sy'n gallu creu a chynnal synnwyr o undod mewn diben a meithrin synnwyr o ymddiriedaeth a pherchnogaeth ar y cyd o'r mentrau a'r newidiadau sydd eu hangen;
• sy'n barod i gymryd penderfyniadau anodd, weithiau'n llawn risg, i gael newidiadau hanfodol a fydd yn rhoi dyfodol cynaliadwy i strwythurau, cyllid ac adnoddau'r esgobaeth yn y dyfodol.

Appendix: Children and Youth Bishop Consultation

The Children, Youth and Families team have completed a consultation process with young people from around the Diocese to gather their input into choosing the next Bishop. Young people were invited to watch a video interview between the previous Bishop, John Davies, and members of Brecon Cathedral Choir, on what it means to be a Bishop. This video has been viewed over 4000 times at the time of writing. They were then invited to fill in a worksheet or online survey form to feedback their views on what they felt were the qualities needed to make a good Bishop. These resources were available in both Welsh and English.

An invitation to take part was sent via email to every school in the Diocese, and pupils from Knighton CinW Primary School, Priory CinW School, Llandrindod Wells CinW Primary School, Christchurch CinW Primary School, St Thomas Community Primary School and Danygraig Primary School took part. Individual families were also invited to take part via social media, and churches were encouraged to take part with their youth and children's groups through the weekly newsletter. In total there were 156 responses to the children's survey, and 11 to the youth survey. The children's survey was recommended for Primary school age children, and most respondents were between 9-11. The youth survey was aimed at 11–25-year-olds, and the majority were aged 11-14. This report summarizes the findings.

The children were keen for the Bishop to be involved in their local communities, visiting their schools and churches and those who they see as vulnerable where they live. They had a strong sense of the issues facing their communities and what would make it a better place to live. Their biggest concern was litter, followed by their school environment, and social issues such as homelessness, drug abuse and nature. The children would like to see their new Bishop sharing their concerns and having a passion for the environment- including issues such as climate change, nature, wildlife, pollution, and deforestation; as well as a care for people, particularly those in challenging circumstances (see fig. 1).

What would you like the Bishop to care about?
(Figure 1)



The top 5 things they would like their Bishop to do are: care for people, help the poor and weak; listen to people; tell people about Jesus; and pray. To achieve that, the children overwhelmingly believe that their Bishop should be kind, followed by helpful, positive, and wise (see fig. 2).

What should the Bishop be like?
(Figure 2)



They want a Bishop who will invest in them by telling them bible stories and being creative in how they communicate. A number of the children were also keen that the Bishop would be able to communicate with them in Welsh. The Covid pandemic has changed how they have had to learn so they would also like the Bishop to embrace technology such as Zoom, Teams, and YouTube in order to reach them. However they choose to make that connection, they should be kind, calm and fun, and speak to children at a level they will understand.

The responses that we received through our youth survey have come mostly from the 11-14 age range, most of whom attend church once a week and take part in the Sunday service with some going to a midweek group or visiting with their schools.

When asked how the Coronavirus has changed the way they experience church many of our young people said that they missed the singing

and fellowship that was a big part of their church experience, with some young people choosing to stay away completely or visiting different churches in an online setting.

The young people placed a great deal of value on the church being a friendly and welcoming place that can reach out and help in the community and a place that they could go with their problems as well as mentioning the building, the clubs and the stories told in church.

When asked about the challenges faced by churches as we seek to share the good news of Jesus, our young people were concerned that the church was not reaching everyone and that they would struggle to keep people interested. They also mentioned commitment, the outside environment and areas specifically designed for teenagers.

The young people in our diocese feel that the environment and climate change is the biggest issue that they would like our next bishop to be passionate about, but they should also be passionate about tackling poverty, Wales as a whole, outreach in order to get more people to come to church, the diocese, Christianity in the world and helping others. They would also like the Bishop to work with young people in the diocese because they want to and not because they feel they must.

Overall, the qualities that our young people want to see in our next bishop is someone who is trustworthy and a good listener. And that they must be a caring person (particularly as we emerge from the Coronavirus pandemic).

Looking at both categories, the children and young people in our diocese would like the next Bishop to be someone who cares about them and their communities. They will take the time to get to know the young people in the diocese in a meaningful way and care about what they have to say. They will be passionate about the environment and helping people in the world around them by using their position of influence. They will be creative in evangelism and strong on mission. They won't take themselves too seriously, but will be humble enough to get involved in whatever situation they find themselves in, and to have fun doing it. Ultimately, they will be kind, trustworthy and genuinely care about the young people in the diocese.

swanseaandbrecon.churchinwales.org.uk
facebook.com/SwanseaandBreconDiocese
instagram.com/swanbrecdiocese
twitter.com/Swanbrec